



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

---

## **DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU**

---

**TEITL** Setliad Terfynol Llywodraeth Leol 2016-17

**DYDDIAD** 2 Mawrth 2016

**GAN** Leighton Andrews AC, y Gweinidog Gwasanaethau  
Cyhoeddus

Heddiw, rwyf yn cyhoeddi manylion Setliad Terfynol Llywodraeth Leol ar gyfer 2016-17, gan gynnwys dyraniadau cyllid craidd ar gyfer Awdurdodau Lleol unigol.

Wrth baratoi'r Setliad Terfynol, rwyf wedi ystyried yn ofalus yr ymatebion a gefais i'r ymgynghoriad ynghylch y Setliad Dros Dro. Rwyf yn hyderus ei fod yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer cynllunio ariannol Awdurdodau Lleol ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod.

Rwyf yn cyhoeddi Setliadau Refeniw a Chyfalaf Terfynol Llywodraeth Leol ar gyfer 2016-17 ddiwrnod ar ôl i Gyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru gael ei chyhoeddi. Dyma'r cyfle cynharaf posibl o dan yr amgylchiadau.

Ar gyfer y flwyddyn nesaf, rwyf yn gosod cyllid refeniw Llywodraeth Leol yn £4.102 biliwn. Nid yw hyn wedi newid o'r sefyllfa a gyhoeddais ar 10 Chwefror yn y Setliad Dros Dro wedi'i ddiweddarau yn dilyn y cyhoeddiad o £2.5 miliwn o gyllid ategol gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth.

Mae'r cyfanswm yn cynrychioli gostyngiad o 1.3 y cant (£54 miliwn) o gymharu â 2015-16, ar ôl gwaith addasu ar gyfer trosglwyddiadau.

Er mai'r Setliad heb ei neilltuo yw'r ffynhonnell cyllid unigol fwyaf sydd ar gael i Awdurdodau, nid dyma'r unig un. Mae'n rhaid i awdurdodau ystyried yr holl ffrydiau incwm sydd ar gael iddynt wrth bennu eu cyllidebau ac wrth wneud penderfyniadau am ddarparu gwasanaethau ar gyfer 2016-17.

Ochr yn ochr â'r Setliad, rwyf yn cyhoeddi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau grant Llywodraeth Cymru sydd wedi'u cynllunio ar gyfer 2016-17. Mae hyn yn rhoi darlun manwl i Awdurdodau Lleol o'r cyllid sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2016-17, gan eu galluogi i gyllidebu'n effeithiol.

Mae Tabl 1 yn nodi dosbarthiad terfynol Cyllid Allanol Cyfun rhwng y 22 o Awdurdodau ar gyfer 2016-17.

Yn unol â Chyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru, ni allaf ddarparu arwyddion y tu hwnt i 2016-17.

Mae'r cynnig i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymeradwyo Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol ar gyfer 2016-17 wedi'i gynllunio i'w drafod ar 9 Mawrth 2016.

Tabl 1: Setliad Terfynol 2016-17 – Cymharu Cyllid Allanol Cyfun 2015-16 a Chyllid Allanol Cyfun Terfynol 2016-17

							<i>£000oedd</i>
Awdurdod Unedol	AEF Wedi'i Addasu <sup>1</sup> 2015-16	AEF Dros Dro 2016-17	Diwygiadau	Cyllid Ategol	AEF Terfynol a'r cyllid ategol 2016-17	% y newid o 2015-16	Safle
Ynys Môn	93,841	91,925	3	0	91,928	-2.0%	17
Gwynedd	169,847	166,990	-39	0	166,951	-1.7%	15
Conwy	152,740	149,429	-8	0	149,421	-2.2%	18
Sir Ddinbych	141,294	139,602	6	0	139,608	-1.2%	10
Sir y Fflint	187,535	184,743	7	0	184,750	-1.5%	12
Wrecsam	172,036	169,761	6	0	169,768	-1.3%	11
Powys	175,692	168,488	-19	1,952	170,421	-3.0%	21
Ceredigion	100,010	96,570	3	436	97,010	-3.0%	20
Sir Benfro	161,375	156,932	-38	0	156,894	-2.8%	19
Sir Gaerfyrddin	254,306	251,685	2	0	251,686	-1.0%	8
Abertawe	310,525	307,754	13	0	307,767	-0.9%	5
Castell-nedd Port Talbot	206,637	205,567	9	0	205,575	-0.5%	2
Pen-y-bont ar Ogwr	189,561	187,508	7	0	187,515	-1.1%	9
Bro Morgannwg	153,530	150,443	5	0	150,448	-2.0%	16
Rhondda Cynon Taf	357,009	353,769	6	0	353,775	-0.9%	6
Merthyr Tudful	89,848	89,188	1	0	89,189	-0.7%	4
Caerffili	265,723	263,293	8	0	263,301	-0.9%	7
Blaenau Gwent	110,959	109,252	0	0	109,252	-1.5%	13
Torfaen	131,538	129,296	2	0	129,299	-1.7%	14
Sir Fynwy	94,379	91,439	-2	111	91,548	-3.0%	22
Casnewydd	210,565	209,133	9	0	209,142	-0.7%	3
Caerdydd	426,860	426,285	19	0	426,303	-0.1%	1
<b>Cyfanswm yr Awdurdodau Unedol</b>	<b>4,155,809</b>	<b>4,099,052</b>	<b>0</b>	<b>2,499</b>	<b>4,101,551</b>	<b>-1.3%</b>	

1. Cyllid Allanol Cyfun 2015-16 wedi'i addasu ar gyfer y sylfaen drethu ddiweddaraf a throsglwyddo £31.1m i'r Setliad.